# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYDYN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD MERCHER, 8 MEHEFIN 2016 AM 4.00PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) yn llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C R Evans | M Lewis | H M Morris |
| R V Smith | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

Lindsay Harvey – Prif Swyddog Addysg
Sharon Jones - Arbenigwr Perfformiad Llythrennedd
Gareth Borsden – Gwasanaethau Democrataidd

**Apologies for Absence**
**Y Cynghorwyr** J P Curtice, C R Doyle a/ac C Thomas

6 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni chyhoeddwyd unrhyw fuddion.

7 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Ebrill ac 19 Mai 1916 yn gofnod cywir.

8 **ADBORTH A'R DEFNYDD O DDATA VAP. (LLAFAR)**

Rhoddodd Lindsay Harvey, Prif Swyddog Addysg, ddiweddariad llafar i'r pwyllgor am ddefnydd ysgolion o ddata.

Nododd y bu ymateb ysgolion i'r holiadur a ddosbarthwyd ar ran y pwyllgor yn gynharach yn y flwyddyn yn isel, yn anffodus. Amlinellodd y rhesymau tebygol dros hyn ond nododd y byddai'n codi'r mater eto wrth gwrdd ag ysgolion ym mis Gorffennaf ac yn rhoi adborth i'r pwyllgor.

Nododd fod y data PABAN yn cynorthwyo wrth gyflwyno strategaeth ymyrryd cyn gynted â phosib, ac mae'r defnydd o'r data ac ymyrryd yn gynnar yn ffactorau allweddol wrth gyfyngu ar NEETS a'u lleihau. Mae'r data PABAN wedi cael ei ddefnyddio ers 2010 yn Abertawe.

Roedd Estyn wedi cefnogi ei ddefnydd ar ôl arolygu'r awdurdod yn 2013, ac roedd wedi cymeradwyo Ysgol Gynradd yr Hafod yn ddiweddar am ei defnydd o'r data ar ôl arolygiad yn yr ysgol.

Nid yw'r defnydd o ddata PABAN yn orfodol i ysgolion ond caiff ei annog yn daer a'i ddefnyddio'n eang i sicrhau bod systemau olrhain disgyblion priodol yn eu lle. Gall y defnydd cywir o'r data deilwra darpariaeth a galluogi rhoi strategaethau yn eu lle fel y gellir rhagweld “lleoliadau” plant unigol yn fwy cywir. Mae hefyd yn galluogi monitro plant yn fwy cywir dros y tymor hwy.

Nododd fod ysgolion uwchradd yn defnyddio data PABAN i gynorthwyo gyda throsglwyddiad disgyblion o'r ysgol gynradd.

Manylodd ar y math o ddata a gwybodaeth a geir yn y data PABAN.

Nododd y caiff data PABAN ei anfon i golegau addysg eraill i gynorthwyo gyda throsglwyddiad disgyblion o addysg uwchradd, ond nid yw'n glir sut mae'r colegau'n defnyddio'r data hwn. Nododd y byddai'n gwirio a gaiff data ei gyflwyno wedyn gan yr awdurdod neu'n uniongyrchol gan yr ysgolion.

Amlinellwyd a thrafodwyd y materion a'r rhesymau ynglŷn â pham nad yw pobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndir EOTAS, yn dilyn neu'n gadael cyrsiau yn y coleg. Tynnwyd sylw at y problemau a'r amgylchiadau personol/cymdeithasol/teuluol anodd iawn sydd gan lawer o blant yn y system EOTAS, yn ogystal â'r anhawster wrth ailgyflwyno plant i addysg brif ffrwd ar ôl iddynt gyrraedd oedran penodol.

Cyfeiriodd at y goblygiadau a'r newidiadau a ddaw yn sgîl adolygiad Donaldson, yn benodol y posibilrwydd o symud o'r cwricwlwm anhyblyg presennol i gwricwlwm mwy galwedigaethol/amgen, a allai gynorthwyo a gwasanaethu rhai disgyblion yn fwy effeithiol.

Gan nodi'r ddarpariaeth chweched dosbarth a choleg bresennol, bu'r aelodau'n cefnogi'r angen am gwricwlwm galwedigaethol/amgen ychwanegol er mwyn cynnwys ac annog plant sy'n llai llwyddiannus yn academaidd. Roeddent hefyd yn cefnogi rhannu arfer da a syniadau rhwng ysgolion.

**CYTUNWYD** y dylid nodi'r diweddariad a dylai'r Prif Swyddog Addysg adrodd yn ôl am y data PABAN ar ôl cwrdd ag ysgolion ym mis Gorffennaf.

## 9 **TRAFODAETH AG YMGYNGHORYDD LLYTHRENNEDD.**

Rhoddodd Sharon Jones, Arbenigwr Perfformiad Llythrennedd, a Lindsay Harvey amlinelliad i'r pwyllgor o bwysigrwydd allweddol a hanfodol sgiliau llythrennedd a'u cysylltiadau â rhifedd a sgiliau bywyd cyffredinol.

Nododd fod yr awdurdod, ynghyd â'i awdurdodau partner yn ERW, yn gweithio gydag athrawon ac ysgolion i gefnogi a gwella llythrennedd plant.

Manylodd ar y strategaethau penodol sy'n ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a'r tu hwnt, a nododd yr angen i gefnogi athrawon er mwyn cynyddu disgwyliadau plant ac archwilio potensial gwahanol pob plentyn.

Cyfeiriodd at enghreifftiau o arfer da gyda'r awdurdod a nododd bod y rhain yn cael eu rhannu rhwng ysgolion ac ar draws awdurdodau lleol.

Cyfeiriodd at y "dewis o gefnogaeth" sydd yn ei le ar gyfer yr ysgolion, a'r strategaethau a'r cynlluniau amrywiol ar gyfer bechgyn yn benodol i'w cynnwys a'u hannog i ddarllen, megis cynllun darllen yr Uwch-gynghrair.

Nododd y rhoddir cefnogaeth gyffredinol i bob ysgol, ond bod ysgolion penodol yn cael cymorth ychwanegol ar ôl arolygiadau neu ganlyniadau Estyn. Caiff yr ysgolion eu monitro am y lefel o addysgu effeithiol mewn ystafelloedd dosbarth ac ansawdd ac amrywiaeth y llyfrau a ddarperir. Nododd fod y gwasanaeth yn siarad yn uniongyrchol â phlant a bod arolwg wedi cael ei gynnal i geisio'u barn.

Amlinellwyd yr hyfforddiant a roddwyd gan y gwasanaeth i athrawon sydd, yn eu tro, yn hyfforddi athrawon eraill dan y model Ysgol i Ysgol.

**CYTUNWYD** i gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 pm

**CADEIRYDD**